Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Eiddo
Property

I'W OSOD

Hen Ganolfan Chwareon Dŵr
Y Parrog
Wdig





Hen Ganolfan Hyfforddi â blaen gwydr yn sefyll ar wahân mewn lleoliad syfrdanol yn wynebu'r môr yn Y Parrog. Mae'r eiddo yn addas ar gyfer llu o opsiynau masnachol neu hamdden, yn ôl amodau unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol.

Gwahoddir cynigion o fwy na £10,000 y flwyddyn.Gwahoddir datganiadau o ddiddordeb mewn ysgrifen (yn cynnwys manylion y defnydd arfaethedig).
Cyfarwyddiadau: Cod Post yr eiddo yw SA64 0DE.

Disgrifiad: Mae'r Hen Ganolfan Chwaraeon Dŵr yn adeilad ar wahân, wedi ei strwythuro â ffrâm bortal ddur gyda llenfuriau godi gwydr dwbl alwminiwm ar y naill ochr a'r blaen, a tho gorchudd metel. Mae'r adeilad yn sefyll ar lan y môr yn Y Parrog, yn agos at y llithrfa ac o fewn pellter cerdded i'r maes parcio cyhoeddus (taliadau'n berthnasol 1 Mawrth hyd 31 Hydref).

Llety:

Mae drws dwbl ar gyfer cerddwyr i mewn ac allan o'r adeilad yn arwain at:

Derbynfa/Swyddfa (uchder llawn)**:** 11.59 m x 4.51 m (38 tr x 15 tr). Drws yn arwain at:

Cegin Fach: 1.39 m x 1.66 m (4.6 tr x 5.5 tr)

Drws yn arwain o'r Dderbynfa/Swyddfa at neuadd fewnol gyda drysau yn arwain at **Doiledau** **Merched a Dynion ac Ystafelloedd Cawod** a:

Prif Swyddfa: 4 m x 3.76 x (13.2 tr x 12.4 tr) gyda desg/agorfa i'r Dderbynfa/Swyddfa.

Mae modd cyrraedd y canlynol o'r Brif Swyddfa a'r neuadd fewnol:

Hen Storfa: 3.8 m x 5.6 m (12.5 tr x 18.5 tr) gyda mynediad at storfa llawr cyntaf, drws dwbl ar gyfer cerddwyr i adael yr adeilad a drws i:

Storfa/Swyddfa: 3 m x 1.9 m (9.9 tr x 6.27 tr)

Mae modd, hefyd, cyrraedd y canlynol o'r neuadd fewnol:

Hen Ystafell Newid/Swyddfa 1 (cefn): 3.7 m x 2.7 m (12.2 tr x 8.9 tr)

Hen Ystafell Newid/Swyddfa 2 (cefn): 3.7 m x 2.7 m (12.2 tr x 8.9 tr)

Hen Ystafell Newid/Swyddfa 3 (blaen): 3.8 m x 3 m (12.5 tr x 9.9 tr)

Hen Ystafell Newid/Swyddfa 4 (blaen): 3.7 m x 2.7 m (12.2 tr x 8.9 tr)

Hen Ystafell Newid/Swyddfa 5 (blaen): 3.8 m x 3 m (12.5 tr x 9.9 tr)

Mae drws o'r neuadd fewnol yn rhoi mynediad at y maes parcio cyhoeddus.

Gwasanaethau

Deallir bod y prif gyflenwadau dŵr, trydan, nwy a charthffosiaeth wedi eu cysylltu. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb fynd ati i wneud ymholiadau ynghylch y darparwyr gwasanaethau perthnasol eu hunain.

Yn Allanol

Yn union y tu ôl i'r eiddo mae compownd diogel wedi'i osod i laswellt ac wedi'i amgáu â ffens weldio a giât ddwbl ar gyfer mynediad.

Deiliadaeth

Mae'r eiddo ar gael 'i'w osod' ar delerau sydd i'w cytuno.

Costau Cyfreithiol

Bydd gofyn bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwneud cyfraniad o £420+taw tuag at gostau cyfreithiol y Cyngor.

Gwerth Ardrethol


Gwerth Ardrethol cyfredol (rhestr 2017) yr eiddo yw £7,800.


Ymweliadau

Drwy drefnu apwyntiad o flaen llaw gyda Is-adran Eiddo Cyngor Sir Benfro. Am ragor o fanylion, cysylltwch gyda: desg gymorth eiddo - 01437 775874
propertyhelpdesk@pembrokeshire.gov.uk.co.uk



EPC


Energy Performance Asset Rating
More energy efficient
A+
Net zero CO_2 emissions
A 0-25
B 26-50
C 51-75
D 76-100
E 101-125
F 126-150
G Over 150
49
This is how energy efficient the building is.
Less energy efficient



Mae'r manylion yma wedi cael eu paratoi yn ofalus er mwyn rhoi golwg gyffredinol ar nodweddion yr eiddo neu'r consesiwn sydd ar gael. Nid yw'r Cyngor yn ymgymryd bod y manylion yma, nac unrhyw wybodaeth a ddarpara ei weithwyr ar lafar neu yn ysgrifenedig, yn rhydd rhag gwallau neu fylchau, na bod yr eiddo mewn cyflwr strwythurol dda neu'n rhydd rhag deunyddiau niweidiol, nac ychwaith bod unrhyw declynnau gwasanaethol neu offer arall yn gweithio. Felly, mae'n rhaid i'r ddarpar brynwr, tenant, neu ddeiliad hawl wneud eu hymholiadau ac archwilio'r eiddo eu hunain

er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth cyn ymrwymo i gontract i werthu neu i osod. Mae'r manylion yma yn gwbl anghynwysedig mewn unrhyw gontract i werthu, gosod neu gonsesiwn. Mae gan y Cyngor yr hawl i dynnu unrhyw gynnig i werthu, i osod, neu i ganiatáu consesiwn yn ôl ar unrhyw adeg ac ni fyddant yn gyfrifol o gwbl am unrhyw gostau a fyddo gan bartïon â diddordeb.